

Y Brifysgol Agored

SAFONAU'R IAITH GYMRAEG

Sut byddwn yn cydymffurfio â'r safonau



Y BRIFYSGOL AGORED

Sut bydd y Brifysgol Agored yn cydymffurfio â safonau'r Gymraeg

Mae safonau newydd wedi'u cyflwyno ar gyfer y Gymraeg. Maen nhw'n rhoi fframwaith cyfreithiol yn ei le sy'n rhoi hawl i unigolion yng Nghymru dderbyn gwasanaethau penodol drwy gyfrwng y Gymraeg.

Cyflwynwyd y safonau fel rhan o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Cafodd swydd Comisiynydd y Gymraeg ei chreu fel rhan o'r un Mesur hefyd, gyda chyfrifoldebau i fonitro cydymffurfiaeth.

Rydym wedi creu'r ddogfen hon er mwyn amlinellu sut mae'r Brifysgol Agored yn bwriadu cydymffurfio â safonau'r Gymraeg.

Pa rannau o waith y Brifysgol Agored sy'n cael eu cynnwys yn y safonau?

Nid yw'r safonau yn berthnasol i bob agwedd o waith y Brifysgol Agored – ac mae'r cwricwlwm wedi'i eithrio fel gweithgaredd.

Mae'r cynllun cydymffurfio hwn, yn cyfeirio at y meysydd ble mae dyletswydd ar y Brifysgol Agored i gydymffurfio â safonau'r Gymraeg, sef

- Derbyn/ dethol myfyrwyr
- Gwybodaeth a ddarperir i fyfyrwyr ynglŷn â'r Brifysgol Agored
- Lles myfyrwyr
- Cwynion
- Gweithdrefnau disgyblu o ran myfyrwyr
- Gwasanaeth gyrfaoedd
- Mewnwyd myfyrwyr
- Seremonïau graddio
- Aseidiadau ac arholiadau
- Grantiau a chymorth ariannol
- Darlithoedd cyhoeddus
- Cyfleoedd dysgu
- Llyfrgelloedd a chanolfannau celfyddydol
- Galwadau i rifau ffôn
- Arwyddion ar adeiladau'r Brifysgol Agored

Mae nifer o'r safonau yn berthnasol i'r Brifysgol Agored gyfan, ond mae'r rhan fwyaf ohonynt yn cyfeirio at y Brifysgol Agored yng Nghymru yn unig. Mae'r safonau yn gymwys i wasanaethau a ddarperir i'r cyhoedd yng Nghymru, ac mae hynny'n cynnwys gwasanaethau a ddarperir y tu allan i Gymru.

Mae manylion llawn wedi'u cynnwys yn ein Hysbysiad Cydymffurfio terfynol, sydd ar gael [fan hyn](#).

Rydym wedi darparu gwybodaeth a chanllawiau i'n staff i'w helpu i sicrhau bod y Brifysgol Agored yn cydymffurfio â'r safonau.

Sut bydd y Brifysgol Agored yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg

Ysgrifennu atom ni

1. Os ydych yn ysgrifennu llythyr neu e-bost atom, gallwch wneud hynny'n Gymraeg, a byddwn yn ymateb yn Gymraeg.
2. Byddwn yn gofyn i fyfyrwyr wrth gofrestru os bydden nhw'n dymuno derbyn gohebiaeth oddi wrthym yn Gymraeg – os ydyn nhw, byddwn yn cofnodi hynny a chyfathrebu â nhw'n Gymraeg.
3. Os ydych yn fyfyrwr sydd wedi'i leoli yng Nghymru a'n bod yn ysgrifennu atoch am y tro cyntaf neu os nad ydym yn gwybod pa iaith yr hoffech i ni ohebu â chi, byddwn yn gohebu â chi yn ddwyieithog.
4. Ni fyddwn yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg pan fyddwn yn anfon neu'n derbyn llythyron neu negeseuon e-bost.
5. Rydym yn nodi'n glir yn ein gohebiaeth a'n cyhoeddiadau ein bod yn croesawu cyswllt drwy gyfrwng y Gymraeg.
6. Bydd ein staff sy'n siarad Cymraeg yn nodi hynny ar eu llofnod electroneg ar e-bost.

Cysylltu â ni ar y ffôn

1. Bydd pawb sy'n galw ein prif rif ffôn yng Nghymru yn derbyn cyfarchiad dwyieithog.
2. Rydym yn croesawu galwadau ffôn i'n prif rif ffôn yng Nghymru yn Gymraeg ac yn delio â galwadau'n Gymraeg os mai dyna yw dymuniad y sawl sy'n galw.
3. Bydd staff y Brifysgol Agored yng Nghymru yn ateb galwadau i'w rhifau uniongyrchol yn ddwyieithog.
4. Byddwn yn delio â galwadau i'n prif rif yng Nghymru yn Gymraeg os mai dyna yw dymuniad y sawl sy'n galw.
5. Os bydd eich galwad yn cael ei hateb y tu allan i Gymru a'ch bod am i ni ddelio â chi yn Gymraeg, lle bo'n bosibl, byddwn yn gwneud trefniadau i hynny ddigwydd.

Cyfarfodydd a digwyddiadau sy'n cael eu cynnal yng Nghymru

1. Os ydym yn gwahodd myfyrwyr neu unigolion i gyfarfod ynglŷn â'r meysydd y mae gan y Brifysgol Agored ddyletswydd i gydymffurfio â'r safonau, byddwn yn gofyn a ydynt am gyfrannu yn Gymraeg, ac yn trefnu cyfieithydd os ydynt yn dymuno.

2. Byddwn yn anfon gwahoddiadau dwyieithog i'n cyfarfodydd cyhoeddus yng Nghymru, ac os ydych yn mynychu cyfarfod neu ddigwyddiad cyhoeddus rydym ni wedi'u trefnu, mae croeso i chi gyfrannu yn Gymraeg, a byddwn yn darparu cyfleusterau cyfieithu.
3. Bydd deunydd cyhoedduswydd, arwyddion a gwybodaeth sy'n gysylltiedig ag unrhyw gyfarfod neu ddigwyddiad cyhoeddus yng Nghymru ar gael yn ddwyieithog.
4. Pan fyddwn yn gofyn i unigolion siarad yn ein digwyddiadau neu gyfarfodydd cyhoeddus, gallant wneud hynny'n Gymraeg, a byddwn yn trefnu cyfleusterau cyfieithu os ydynt yn dymuno.
5. Pan fyddwn yn trefnu neu'n ariannu o leiaf hanner digwyddiad cyhoeddus, byddwn yn hyrwyddo ac yn hysbysebu'r digwyddiad hwnnw yn ddwyieithog.
6. Bydd unrhyw wybodaeth a deunyddiau sydd ar gael neu'n cael eu harddangos mewn digwyddiad perthnasol neu gyfarfod cyhoeddus, yn ddwyieithog.
7. Byddwn yn darparu cyfieithu ar y pryd yn ein darlithoedd cyhoeddus os yw'r pwnc neu'r gynulleidfa yn awgrymu bod hynny'n briodol.

Dogfennau sydd wedi'u cyhoeddi

1. Bydd ein dogfennau sydd wedi'u cyhoeddi ar gael yn Gymraeg os ydynt yn cael eu cynhyrchu gan y Brifysgol Agored yng Nghymru, yn berthnasol i Gymru yn unig neu'n cael eu cynhyrchu i'w defnyddio yng Nghymru gan y Brifysgol Agored yn ganolog – gweler ein [hysbysiad cydymffurfio llawn](#) am fanylion llawn pa ddogfennau sy'n cael eu cynnwys.
2. Bydd yr holl ddogfennau perthnasol a gynhyrchwn sy'n cael eu cwmpasu gan y safonau ar gael yn Gymraeg a Saesneg, a bydd y ddwy iaith yn cael eu trin yn gyfartal.
3. Pan fyddwn yn cynhyrchu fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân, byddwn yn nodi'n glir ar y fersiwn Saesneg bod fersiwn Gymraeg ar gael.
4. Bydd y ddwy iaith i'w gweld mor amlwg â'i gilydd ar ein hunaniaeth gorfforaethol yng Nghymru.

Gwefan ac ar-lein

1. Mae gwefan y Brifysgol Agored yng Nghymru yn ddwyieithog.
2. Byddwn yn diweddarar tudalennau Cymraeg ar yr un pryd â'r rhai Saesneg.
3. Byddwn yn sicrhau ei bod hi'n bosibl symud yn hawdd rhwng y fersiynau Cymraeg a Saesneg ar holl dudalennau gwefan y Brifysgol Agored yng Nghymru.
4. Mae adran ar wefan y Brifysgol Agored yng Nghymru sy'n cynnwys gwybodaeth ynglŷn â sut rydym yn cydymffurfio â'r safonau iaith.
5. Mae gwybodaeth gyffredinol am ein cyrsiau hefyd ar gael yn Gymraeg.
6. Byddwn yn hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg sydd o fewn sgôp y safonau ar ein gwefan.
7. Rydym yn defnyddio Twitter @OUCymru i rannu gwybodaeth gyffredinol am y Brifysgol Agored yng Nghymru. Ni fydd y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ar y llif Twitter.

8. Os ydych yn anfon neges at @OUCymru neu unrhyw un o'n cyfrifon Twitter eraill, byddwn yn ateb yn iaith eich neges wreiddiol, os oes angen ateb.

Yn ein hadeiladau

1. Byddwn yn sicrhau bod siaradwr Cymraeg ar y ddesg yn y dderbynfa yn swyddfa'r Brifysgol Agored yng Nghaerdydd.
2. Os byddwn yn trefnu cyfarfod gyda chi a'ch bod yn rhoi gwybod i ni ymlaen llaw, gallwn drefnu eich bod yn cael gwasanaeth cyfarch Cymraeg yn y dderbynfa.
3. Bydd arwydd yn cael ei osod ar ddesg y dderbynfa yng Nghaerdydd yn nodi bod croeso i chi siarad â ni yn Gymraeg.
4. Bydd staff y Brifysgol Agored yng Nghymru sy'n gweithio ar ein derbynfeydd yng Nghaerdydd yn gwisgo bathodyn *laith Gwaith* os ydynt yn siarad Cymraeg.
5. Bydd ein holl arwyddion yn ddwyieithog - rhai dros dro a pharhaol - ac mae trefniadau yn eu lle i sicrhau eu bod yn gywir.

Tendro

Mae'n ddyletswydd ar y Brifysgol Agored i gydymffurfio â safonau sy'n ymwneud â thendro o 1af Hydref 2018. Byddwn yn cyhoeddi manylion ynglŷn â sut rydym yn cydymffurfio â'r safonau hyn o'r dyddiad hwnnw.

Creu ac adolygu polisiau

Mae'n ddyletswydd ar y Brifysgol Agored i gydymffurfio â safonau sy'n ymwneud â chreu polisiau o 1af Hydref 2018. Byddwn yn cyhoeddi manylion ynglŷn â sut rydym yn cydymffurfio â'r safonau hyn o'r dyddiad hwnnw.

Fel cyflogwr

1. Rydym yn ymrwymo i'r egwyddor y gall ein staff yng Nghymru fyw eu bywydau gwaith drwy gyfrwng y Gymraeg yn unol â'r safonau.
2. Wrth recriwtio am swyddi perthnasol yng Nghymru, byddwn yn ystyried yr angen am sgiliau Cymraeg ar gyfer pob swydd newydd, a phan fyddwn yn hysbysebu swydd lle mae angen sgiliau iaith, byddwn yn nodi hynny ac yn hysbysebu yn Gymraeg.
3. Gallwch wneud cais am swydd gyda ni drwy gyfrwng y Gymraeg a byddwn yn cyfathrebu â chi ynglŷn â'ch cais yn Gymraeg os dymunwch.
4. Ni fyddwn yn trin ceisiadau am swyddi a gyflwynir yn Gymraeg yn llai ffafriol na'r rhai Saesneg.
5. Bydd ein polisiau ynglŷn ag amodau gwaith ein staff sy'n cael eu rhestru yn y safonau ar gael yn Gymraeg a Saesneg.
6. Rydym yn annog staff i siarad Cymraeg yn y gwaith a byddwn yn eu cefnogi a'u helpu i wella eu sgiliau iaith drwy drefnu gwersi yn ystod oriau gwaith.

Monitro a goruchwyllo

Bydd Rheolwr Cyfathrebu y Brifysgol Agored (Iaith Gymraeg) yn monitro ein cynnydd a'n cydymffurfiaeth drwy gydol y flwyddyn. Byddwn yn casglu tystiolaeth am gydymffurfiaeth yn rheolaidd, a byddwn yn sicrhau ei fod ar gael i Gomisiynydd y Gymraeg yn ôl yr angen.

Cadw cofnod ac adrodd yn flynyddol

I gydymffurfio â'r safonau iaith, byddwn yn cyflwyno adroddiad blynyddol i Gomisiynydd y Gymraeg ym mis Medi. Bydd yr adroddiad yn egluro ac yn darparu tystiolaeth ar sut rydym wedi gwireddu'r safonau yn ystod y flwyddyn. Bydd yn dangos hefyd os nad ydym wedi gwireddu unrhyw un o'r safonau ac os ydym wedi derbyn cwynion am ein darpariaeth Gymraeg.

Pan fo pethau'n mynd o chwith

Ein nod yw darparu'r gwasanaeth gorau posib drwy'r amser, ond weithiau, rydym yn ymwybodol y gall pethau fynd o chwith.

Gallwch gwyno wrthym os ydych yn teimlo nad ydym wedi cyflawni ein dyletswyddau fel y nodir yn y safonau. Byddwn yn gwneud ein gorau i ddysgu ac i roi camau ar waith i gywiro unrhyw gamgymeriadau.

Mae gennym broses sy'n ymdrin yn benodol â chwynion ynglŷn â'n cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg – ewch i'n gwefan i ddarllen am y polisi. Gallwch gyflwyno cwyn drwy lythyr neu e-bost.

Cefnogi ein Staff

Rydym wedi ymrwmo i sicrhau ein bod yn cydymffurfio'n llawn â'r safonau sydd wedi'u gosod ar y Brifysgol Agored.

Mae gan bawb sy'n gweithio yn y Brifysgol Agored gyfrifoldeb i gyflawni'r nod hwn. Bydd ein staff sy'n siarad Cymraeg a'r rheini sy'n dysgu'r iaith yn allweddol, ond byddwn hefyd yn cefnogi ac yn rhoi trefniadau ar waith i sicrhau bod staff di-Gymraeg yn deall ein dyletswyddau i gydymffurfio.

Er mwyn bodloni gofynion y safonau, byddwn yn:

- Sicrhau bod pob aelod o staff yng Nghymru yn cael cynnig sesiynau ymwybyddiaeth iaith ac hyfforddiant ynglŷn â gofynion y safonau a'r defnydd o'r iaith yn y gweithle.

- Darparu meddalwedd a thempledi i staff i'w helpu i gydymffurfio â'r safonau yn eu gwaith.
- Creu polisi ar ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.

Am fwy o wybodaeth

Mae rhestr lawn o'r holl safonau a osodwyd ar y Brifysgol Agored i'w gweld [fan hyn](#). Mae gwybodaeth bellach ynglŷn â'r safonau a Mesur y Gymraeg ar gael ar wefan Comisiynydd y Gymraeg www.comisiynyddygybraeg.cymru

Cysylltwch â ni os hoffech fanylion pellach:

Y Brifysgol Agored yng Nghymru

18 Heol y Tollty
Caerdydd CF10 1AP

029 2047 1019

www.open.ac.uk/cymru